Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

GwerthwchiGymru
# Canllaw Defnyddwyr SQuID

## Cynnwys


Cyflwyniad ... 2
Panel Rheoli SQuID y Prynwyr ... 3
  Dod o hyd i'r Panel Rheoli ... 3
  Deall Panel Rheoli SQuID ... 4
Ateb Holiadur Squizard ... 5
  Sut i Ddechrau Holiadur Newydd ... 5
  Gweithio drwy eich Holiadur ... 7
Deall yr Adrannau ... 9
Newid eich Ateb i Gwestiwn ... 10
Gorffen Holiadur Squizard ... 11
  Cwblhau'r Holiadur ... 11
  Cynnwys ac Eithrio Cwestiynau ... 12
  Creu Cwestiynau Pwrpasol ... 13
  Pennu Cwestiynau Gorfodol a Pasio/Methu ... 15
  Darparu Manylion Cwestiynau Pasio/Methu ... 16
  Diwygio Canllawiau Cwestiynau SQuID ... 18
Gorffen eich Holiadur ar gyfer ei Allforio ... 20
Allforio'r Cwestiynau SQuID ... 21
Lanlwytho eich set gwestiynau i etenderwales ... 22
Cloi a datgloi eich Squizard ... 23
Rhagor o wybodaeth ... 23

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Cyflwyniad

Catalog cyffredin o gwestiynau a phrosesau i'w defnyddio wrth ddethol cyflenwr yn ystod y broses gaffael yw'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID). Mae'n cynnig set o gwestiynau safonol a dull dewin er mwyn i brynwyr ddewis y cwestiynau mwyaf priodol ar gyfer pob caffaeliad unigol.


I gyflenwyr, mae'n golygu yn y lle cyntaf eu bod yn gweld dulliau mwy safonol o ddethol cyflenwyr ar draws y sector cyhoeddus. Ym mis Medi 2015, byddwn yn lansio'r SQuID ar-lein sy'n golygu y gellir storio ymatebion cyflenwyr i holiadur cyn-gymhwyso neu wahoddiad i dendro blaenorol mewn cronfa ddata a'u hailddefnyddio ar gyfer sawl caffaeliad. Mae hyn yn golygu bod y broses dendro'n cael ei symleiddio, gan arbed amser ac arian trwy leihau'r angen i gyflenwyr ddarparu'r un wybodaeth bob tro maent yn ymateb i gais caffael.

# Panel Rheoli SQuID y Prynwyr

**Dod o hyd i'r Panel Rheoli**

Panel Rheoli SQuID y Prynwr yw'r rhan o'r wefan lle'r ydych yn rheoli eich holl ymarferion Squizard a setiau cwestiynau SQuID. Er mwyn cael mynediad at y Panel Rheoli, mae'n rhaid i chi fewngofnodi i [http://www.gwerthwchigymru.gov.uk/](http://www.gwerthwchigymru.gov.uk/) a mynd i'r Panel Rheoli i Brynwyr.

Hafan > Panel Rheoli'r Awdurdod >Panel Rheoli  SquID y Prynwr



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

**Deall Panel Rheoli SQuID**

Ceir rhestr isod o dermau y dylech ymgyfarwyddo â nhw cyn dechrau'r broses SQuID:

Set o gwestiynau craidd i'w defnyddio yn ystod y cam dethol yw **SQuID**.
Holiadur ar sail risg yw **Squizard** a fydd yn eich helpu i gynhyrchu'r set fwyaf priodol o gwestiynau SQuID.
Holiaduron nad ydynt wedi'u cwblhau eto yw **Squizards wedi'u cychwyn**, y gellir parhau â nhw ar unrhyw adeg.
Setiau cwestiynau wedi'u cwblhau ac sy'n barod i'w defnyddio mewn ymarfer caffael yw **SQuIDs wedi'u gorffen**.
Testun a ddarperir i'r cyflenwyr ynghyd â'r cwestiynau SQuID craidd yw **Arweiniad**.
Ffordd gyflym i chi ddod o hyd i squizards neu SQuIDs a gynhyrchwyd gan eich cofrestriad eich hun yw **Fy SQuIDs/Squizards**.
Mae rhestrau **SQuIDs/Squizards y Prynwr** yn dangos yr holl squizards neu SQuIDs a grëwyd gan ddefnyddwyr yn eich sefydliad, gan gynnwys y rhai a grëwyd gennych chi'n bersonol.

**Panel Rheoli SQuID y prynwr**

Rydych yma: Hafan > Panel Rheoli'r Awdurdod > Panel Rheoli SQuID y prynwr

Croeso i'ch Panel Rheoli. Set o gwestiynau cyffredin craidd i'w defnyddio yn ystod cam dethol caffael yw SQuID (Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr).

Byddwch yn creu eich set o gwestiynau ar gyfer y SQuID gan ddefnyddio'r Squizard. Mae hwn yn holiadur seiliedig ar risg a fydd yn eich helpu i gynhyrchu'r set fwyaf priodol o gwestiynau'r SQuID ar gyfer eich prosesau caffael.

Gallwch ddefnyddio'r SQuID ar gyfer gweithdrefnau agored a chyfyngedig yr OJEU ac ar gyfer prosesau caffael sy'n dod o dan drothwyon yr UE – yn ei hanfod, gellir defnyddio'r SQuID pryd bynnag y bydd arnoch angen holi cynigwyr am eu cymwyseddau ariannol a thechnegol, a'u profiad.

**Diffiniadau:**

- Set o gwestiynau cyffredin craidd i'w defnyddio yn ystod y cam dethol yw **SQuID**.
- **Mae Squizard** yn holiadur seiliedig ar risg a fydd yn eich helpu i gynhyrchu'r set fwyaf priodol o gwestiynau ar gyfer y SQuID.

**Rheoli SQuIDs**

- Y SQuIDs rwyf wedi'u gorffen
- Squizards rwyf eisoes wedi'u cychwyn
- SQuIDs y mae'r prynwr wedi'u gorffen
- Squizards y mae'r prynwr wedi'i gychwyn
- Gweld yr Arweiniad i'r Cwestiynau

Cychwyn Squizard newydd

**Cwestiynau'r SQuID**

- Gweld pob Cwestiwn
- Gweld Adrannau'r SQuID

**Help SQuID**


- Beth yw SQuID?
- Canllaw Prynwr

# Ateb Holiadur Squizard

**Sut i Ddechrau Holiadur Newydd**


O'r **Panel Rheoli SQuID y Prynwr** *dewiswch* **Cychwyn Squizard newydd** o'r adran **Rheoli SQuIDs**.

Hafan > Panel Rheoli'r Awdurdod > Panel Rheoli SQuID y Prynwr



Cyflwynir set o gwestiynau i chi nawr:

- **SQuIDs Dwyieithog** – Dewiswch naill ai “Creu yn Gymraeg ac yn Saesneg” neu “Creu yn Gymraeg yn unig” yn dibynnu pa un a ydych yn dymuno cynhyrchu set gwestiynau mewn un neu ddwy iaith. Sylwer na ellir diwygio’r opsiwn hwn ar ôl dechrau’r squizard.
- **Teitl** – Teitl disgrifiadol ar gyfer eich ymarfer squizard. Mae’r maes hwn yn orfodol.
- **Disgrifiad** – Disgrifiad o’r ymarfer squizard. Mae’r maes hwn yn ddewisol.
- **Nodiadau** – Nodiadau’n ymwneud â’r ymarfer squizard at ddefnydd mewnol yn unig. Mae’r maes hwn yn ddewisol.



1. Dechrau | 2. Cwestiynau | 3. Cadarnhau | 4. Opsiynau | 5. Pasio/Methu | 6. Canllawiau

Dechreuwch ddatblygu'ch SQuID drwy nodi'r manylion perthnasol isod. Pan fyddwch chi wedi cofnodi'r manylion hyn, bydd gofyn i chi gwblhau'r Squizard i gynhyrchu set o gwestiynau ar gyfer SQuID. Os ydych chi'n dychwelyd at Squizard rydych chi wedi cychwyn arno'n gynharach, byddwch yn mynd yn ôl at gwestiwn olaf y Squizard y gwnaethoch ei gwblhau cyn gadael y system. *Cliciwch* **Cadw** ar ôl gorffen.

**DS.** Nid yw hyn yn creu allbwn SQuID sy'n cynnwys y ddwy iaith. Os oes angen SQuID yn y Gymraeg a'r Saesneg , yna bydd angen i chi i allbynnu ddwy ffeil, un ym mhob iaith.

Mae'r atebion gofynnol wedi'u marcio â seren (*)

* **SQuIDs Dwyieithog**

Argymhellir eich bod yn creu'r squizard hwn yn Gymraeg ac yn Saesneg fel y gellir allforio'r SQuID wedi'i gwblhau yn y ddwy iaith.

**Ni ellir newid yr opsiwn hwn unwaith y bydd y squizard wedi'i ddechrau.**

○ Creu yn Gymraeg ac yn Saesneg

○ Creu yn Gymraeg yn Unig

* Teitl

Disgrifiad

Nodiadau (ar gyfer prynwyr yn unig)

**Noder:** Bydd clicio ar y botwm Cadw yn cloi'r squizard hwn i'w olygu a dim ond chi fydd yn gallu gwneud y newidiadau. Gallwch ddatgloi'r squizard drwy ddefnyddio'r cyswllt Datgloi ar y dudalen **Squizards rwyf eisoes wedi'u cychwyn**.

Cadw | Canslo

Ar ôl nodi’r atebion priodol i’r cwestiynau, *dewiswch* **Cadw** a fydd yn mynd â chi i’r holiadur Squizard.

**Gweithio drwy eich Holiadur**

Ar ôl cwblhau'r manylion rhagarweiniol ar gyfer eich holiadur, byddwch yn gweithio drwy holiadur ar sail risg a fydd yn eich helpu i gynhyrchu'r set fwyaf priodol o gwestiynau SQuID. Cyflawnir y broses o ateb y cwestiynau yn y tab **Cwestiynau'r Squizard**.

Dangosir pob cwestiwn yn ei drefn dan yr adran 'Ateb y Cwestiwn'.


Ar ôl darllen y cwestiwn dan sylw, dylech ddewis o'r atebion sydd ar gael yn y gwymplen i'r dde i'r cwestiwn ac yna *dewis* **Bwrw ymlaen**.

Wrth i chi ateb y cwestiynau, bydd cyfanswm y cwestiynau'n cynyddu gan ddibynnu ar eich atebion.

Mae canllawiau ategol i brynwyr yn cyd-fynd â llawer o'r cwestiynau, a gellir eu gweld trwy *ddewis* **Arweiniad**.

Wrth i chi ateb cwestiynau arfarnu ariannol penodol, bydd eich sgôr risg yn cynyddu fel y dangosir wrth 'Eich Sgôr Risg'.

Mae modd ychwanegu nodyn at unrhyw un o'ch cwestiynau trwy *ddewis* **Nodiadau'r Prynwr**. Mae'r nodiadau hyn ar gyfer eich sefydliad eich hun yn unig ac ni fyddant yn cael eu dangos i'r cyflenwr.



SQUIZARD | SQUID

Cwestiynau'r Squizard | Holiadur | Pob Cwestiwn | Cwestiynau'r SQuID | Wedi cynnwys | Wedi eithrio

Atebwch bob cwestiwn yn ei dro, gan ddewis eich ateb o'r blwch cwymprestr, ac yna cliciwch "bwrw ymlaen". Gallwch ddychwelyd at gwestiwn cynharach yn Squizard drwy ddefnyddio'r tab Holiadur unrhyw bryd yn ystod proses Squizard.

Ar ôl i chi ateb cwestiynau yn yr adran "Gwerthusiad Ariannol" dewiswch 'Sgôr Risg' i weld graff o'r risg, yn seiliedig ar eich atebion hyd yn hyn, i bennu'ch dull o wirio sefydlogrwydd ariannol y cynigwyr.

**CWESTIYNAU CEFNDIR** Cwestiwn 1 o (17 *yn cynyddu wrth i chi fynd ymlaen*)

***ATEB Y CWESTIWN – atebwch gwestiwn cyfredol y squizard.***

**A yw eich caffael yn gysylltiedig â gwaith adeiladu?**

Dewiswch o blith yr atebion sydd ar gael isod

Dewiswch...

**Bwrw ymlaen**

*EICH SGÔR RISG*

Mae eich sgôr risg yn cael ei ddangos isod, yn seiliedig ar eich atebion hyd yn hyn, i benderfynu ar eich dull ar gyfer gwirio sefydlogrwydd ariannol y cynigwyr.

0 pwynt

**Yswiriant yn unig**

Mae eich sgôr risg yn 0 - 3 pwynt. Mae hyn yn awgrymu bod effaith eich caffael hyd at tua £35k. Argymhellir eich bod yn gwirio yswiriant yn unig.

Mae'r canllawiau isod yn cael ei ddefnyddio i benderfynu ar eich dull ar gyfer gwirio sefydlogrwydd ariannol y cynigwyr.

- 0 - 3 pwynt (effaith o hyd at oddeutu £35,000): gwirio yswiriant yn unig
- 4 – 7 pwynt (effaith o tua £35-85,000): gwiriad llai manwl o'u statws ariannol
- 8 pwynt neu fwy (effaith o tua £100,000 neu fwy): gwiriad manwl o'u statws ariannol


***ARWEINIAD – gweler yr arweiniad pellach ynghylch y cwestiwn hwn.***

***NODIADAU'R PRYNWR – ychwanegwch nodyn am y cwestiwn hwn, er gwybodaeth i chi.***

Gallwch gadw a gadael y broses ar unrhyw adeg, a dychwelyd i gwblhau'r squizard yn ddiweddarach. Trwy *ddewis* **Cadw a Gadael**, caiff y gwaith rydych chi wedi ei wneud hyd yn hyn ei gadw a bydd yr ymarfer squizard yn cael ei gloi i'w olygu'n ddiweddarach, a hynny gan eich cofrestriad chi'n unig.

# Deall yr Adrannau

Ceir chwe adran dan y tabiau ar frig tudalen y broses holiadur. Mae'r cwestiynau yn yr adrannau holiadur wedi'u grwpio dan **Squizard** ac mae'r cwestiynau i'w hallforio ar ddiwedd yr ymarfer wedi'u grwpio dan **SQuID**.
Yn ogystal â'r tab **Cwestiynau'r Squizard** a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol, ceir pum tab arall sy'n cael eu hesbonio isod:





- **Holiadur** – Rhestr o'r cwestiynau Squizard sydd wedi cael eu cynhyrchu i chi eu hateb yn seiliedig ar yr atebion yr ydych wedi eu rhoi. Mae'n dangos hefyd y nodiadau rydych chi wedi eu creu ar gyfer unrhyw gwestiwn ac, mewn rhai achosion, pam mae cwestiwn penodol wedi cael ei gynnwys i chi ei ateb.
- **Pob Cwestiwn** – Rhestr gynhwysfawr o'r holl gwestiynau posibl y gellid eu gofyn i chi yn yr holiadur hwn.
- **Cwestiynau'r SQuID** – Rhestr gynhwysfawr o holl gwestiynau'r cam cymhwyso.
- **Wedi cynnwys** –Rhestr o holl gwestiynau'r cam cymhwyso a fydd yn cael eu hargymell yn seiliedig ar y cwestiynau squizard a atebwyd eisoes.
- **Wedi eithrio** – Rhestr o'r holl gwestiynau SQuID nad ydynt wedi cael eu hargymell hyd yma yn seiliedig ar y cwestiynau a atebwyd eisoes.

## Newid eich Ateb i Gwestiwn

Os byddwch yn dymuno newid yr ateb i gwestiwn a atebwyd eisoes, gallwch wneud hyn o’r tab Holiadur. Dylech *ddewis* **Dychwelyd** nesaf at y cwestiwn priodol i ddychwelyd i’r cwestiwn blaenorol.

Sylwer: bydd hyn yn cael gwared ar yr holl atebion i gwestiynau sy’n dilyn yr un rydych chi’n dewis dychwelyd iddo. Y rheswm am hyn yw y cynhyrchir y cwestiynau yn yr holiadur ar sail eich atebion chi, ac felly mae’n rhaid ailosod y rheolau i sicrhau eich bod yn ateb y cwestiynau cywir.



# Gorffen Holiadur Squizard

**Cwblhau'r Holiadur**

Ar ôl gweithio eich ffordd drwy'r holl gwestiynau yn yr holiadur, mae'n rhaid cwblhau pedwar cam arall i orffen eich holiadur cyn allforio set cwestiynau'r SQuID.

1. Bydd cyfle i chi eithrio neu gynnwys cwestiynau'r SQuID ac ychwanegu eich cwestiynau pwrpasol eich hun.
2. Byddwch yn gallu nodi ei bod yn orfodol i'r cyflenwr ateb rhai cwestiynau a nodi bod cwestiynau yn rhai pasio/methu os yw ateb penodol yn golygu y byddai'r cyflenwr yn aflwyddiannus yn y broses.
3. Pan fyddwch yn pennu cwestiynau penodol yn rhai pasio/methu, bydd yn rhaid i chi nodi'r mesurau sy'n golygu y byddai ateb yn arwain at fod yn aflwyddiannus.
4. Bydd cyfle i chi ddiwygio'r canllaw i gyflenwyr ar gyfer pob cwestiwn.

Gallwch ddychwelyd i gam perthnasol o broses gwblhau ar unrhyw adeg gan ddefnyddio'r llwybr briwsion bara.




Is I gadarnhau fod wedi cwblhau'r squizard dewiswch **Bwch ymlaen** ar ddiwedd yr holiadur

Gallwch gael gafael ar eich cwestiynau o hyd ar y pwynt hwn, drwy'r tab Holiadur neu drwy *ddewis* **Gweld Atebion**.



**Cynnwys ac Eithrio Cwestiynau**

Mae'r cam nesaf yn cyflwyno rhestr i chi o Gwestiynau'r SQuID i'w cynnwys neu eu heithrio wrth allforio. Mae'r opsiwn gennych ar y pwynt hwn i gynnwys neu eithrio cwestiynau eich hun.

Er mwyn eithrio cwestiwn o'r broses allforio, mae angen i chi fynd i'r tab **Wedi cynnwys** a *dewis* **Eithrio** nesaf at y cwestiwn perthnasol.




I gynnwys cwestiwn i'w allforio, mae angen i chi fynd i'r tab **Wedi eithrio** a *dewis* **Cynnwys** nesaf at y cwestiwn perthnasol.




**Creu Cwestiynau Pwrpasol**

Mae'r opsiwn gennych chi i greu eich cwestiynau pwrpasol eich hun i'w cynnwys yn y set gwestiynau, sy'n benodol i'ch ymarfer caffael chi. I wneud hyn, *dewiswch* **Creu Cwestiwn**.





Yna, mae'n rhaid i chi neilltuo'r cwestiwn newydd i adran sy'n bodoli eisoes, gan ddefnyddio'r gwymplen cyn cynnwys testun y cwestiwn a chanllawiau i gyflenwyr. Sylwer: os ydych chi wedi dewis cynnal ymarfer SQuID dwyieithog, mae'n rhaid i chi ddarparu'r testun yn y ddwy iaith.



Mae'n rhaid i chi ddarparu'r math o ateb sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn gan ddewis o blith y canlynol:

**Gwerth Ie / Na:** Gellir dewis ateb cadarnhaol neu negyddol
**Rhestr o Opsiynau:** Mae hwn yn cynnwys rhestr o opsiynau ymateb – rhaid dewis un opsiwn
**Rhestr o Opsiynau Amlddewis:** Gellir dewis mwy nag un opsiwn ymateb o'r Rhestr o Opsiynau Amlddewis
**Testun:** Mae'r math hwn o gwestiwn yn caniatáu ymateb testun o hyd at 2000 o nodau
**Rhifol:** Mae'n rhaid rhoi ateb ar ffurf rhif
**Dyddiad:** Mae'r math hwn o gwestiwn yn gofyn am ddyddiad
**Atodiad:** Bydd gofyn i atodiad gael ei lanlwytho

Os byddwch yn dewis Rhestr o opsiynau neu Rhestr o opsiynau amlddewis, mae'n rhaid i chi ychwanegu'r atebion posibl hefyd. I wneud hyn, *dewiswch* **Diweddaru** ac yna ychwanegwch bob ateb posibl.



**Manylion yr Ateb**

Dewiswch y Math o Ateb ar gyfer y cwestiwn hwn ac yna *cliciwch* ar y botwm **Diweddaru** i ddangos unrhyw feysydd ychwanegol ar gyfer y math a ddewiswyd.

- **Gwerth Ie/Na:** Gellir dewis ymateb Ie neu Na
- **Rhestr o Opsiynau:** Mae hyn yn cynnig rhestr o ddewisiadau ymateb er mwyn dewis un opsiwn
- **Rhestr o Opsiynau Amlddewis:** Gellir dewis mwy nag un o'r opsiynau ymateb o'r Rhestr Opsiynau Amlddewis
- **Testun:** Mae'r math hwn o gwestiwn yn caniatáu i chi nodi ymateb o hyd at 2000 nod
- **Rhifol:** Dim ond nodau rhifol y gellir eu nodi yn yr ymateb
- **Dyddiad:** Mae angen dyddiad ar gyfer y math hwn o gwestiwn
- **Atodiad:** Bydd angen lanlwytho atodiad ar gyfer yr ymateb

* Math o Ateb
Rhestr o Opsiynau Amlddewis **Diweddaru**

Os bydd angen, gellir newid trefn yr atebion gan ddefnyddio'r saethau "Symud i Fyny" a "Symud i Lawr".

| Ateb | Testun Ateb | Testun Ateb Saesneg | Aildrefnu | Dileu |
|---|---|---|---|---|
| A | Ie | Yes | ↑ ↓ | × |
| B | Na | No | ↑ ↓ | × |
| C | | | ↑ ↓ | × |

**Ychwanegu Ateb**

Pan fydd eich set gwestiynau wedi'i chwblhau, *dewiswch* **Bwrw ymlaen**.

**Pennu Cwestiynau Gorfodol a Pasio/Methu**

Mae’r opsiwn gennych i nodi bod cwestiynau yn rhai gorfodol a/neu pasio/methu.

Mae nodi bod cwestiwn yn orfodol yn golygu bod yn rhaid i’r cyflenwr roi ateb wrth gwblhau’r SQuID.

Mae nodi bod cwestiwn yn un pasio/methu yn golygu y gall cyflenwyr fod yn llwyddiannus neu’n aflwyddiannus yn y broses dendro yn dibynnu ar eu hatebion i’r cwestiynau hyn.

Ar ôl cyflwyno’r cyfleuster i gyflenwyr ymateb i holiaduron SQuID ar GwerthwchiGymru, a ddisgwylir ym mis Medi 2015, bydd cyflenwyr yn derbyn gwybodaeth am ba gwestiynau a allai achosi iddynt fod yn aflwyddiannus cyn iddynt ddechrau llenwi’r holiadur. Os ydych chi’n allforio eich set gwestiynau i etenderwales, dim ond y gosodiadau pasio/methu ar gyfer cwestiynau Rhestr o Opsiynau a Rhestr o Opsiynau Amlddewis fydd yn cael eu hallforio. Hefyd, ni all etenderwales dderbyn manylion pasio/methu ar gyfer cwestiynau Pwrpasol.

I nodi bod cwestiynau yn rhai gorfodol neu pasio/methu, dylech roi tic yn y blwch yn y golofn berthnasol. Mae rhai cwestiynau nad oes modd eu nodi yn rhai gorfodol neu pasio/methu, a bydd ‘Dd/g’ yn ymddangos yn y golofn yn yr achosion hynny.





Ar ôl i chi farcio eich holl gwestiynau’n briodol, *dewiswch* **Bwrw ymlaen.**


Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk

**Darparu Manylion Cwestiynau Pasio/Methu**

Ar gyfer pob cwestiwn i chi ei nodi'n un pasio/methu yn y cam blaenorol, mae'n rhaid i chi ddiweddaru'r atebion pasio/methu neu ychwanegu canllawiau pasio/methu i'r cyflenwr. I wneud hyn, mae'n rhaid i chi *ddewis* **Golygu** nesaf at bob cwestiwn.



Yna, mae'n rhaid i chi nodi pa ateb fyddai'n achosi i'r cyflenwr fod yn aflwyddiannus. Os yw'r cwestiwn yn un sy'n gofyn am ateb ie/na, ateb o'r rhestr opsiynau neu'n ateb o'r opsiynau amlddewis, gofynnir i chi ddewis yr ateb neu'r atebion a fyddai'n achosi i'r cyflenwr fethu. Gofynnir i chi hefyd gynnwys testun i esbonio amgylchiadau pasio/methu. Ar ôl i chi gofnodi'r manylion hyn, *dewiswch* **Bwrw ymlaen.**



**Testun y Cwestiwn**

Os ydych yn brif gontractwr, gall y prynwr ei gwneud yn ofynnol i chi, o dan y contract, ddefnyddio Cyfrif Banc Prosiect fel y prif ddull o dalu eich is-gontractwyr. A fyddech yn fodlon cydymffurfio â hyn?

**Nodyn i'r Prynwr**

Os ydych yn bwriadu defnyddio Cyfrifon Banc Prosiect, dylech naill ai nodi hyn yn glir ymlaen llaw (a pheidio â defnyddio'r cwestiwn hwn hefyd) neu newid y canllawiau i wneud y gofyniad yn glir. Argymhellir eich bod yn trin hyn fel mater pasio / methu.

*** Atebion Pasio/Methu**

Dewiswch pa ateb fydd yn peri i'r cyflenwr Fethu:

- ○ Byddwn
- ◉ Na fyddwch

**Manylion Pasio/Methu**

Caiff y manylion Pasio/Methu eu dangos i'r cyflenwr i esbonio pam mae cwestiwn yn pasio/methu a/neu pam y mae atebion penodol wedi'u nodi fel pasio/methu.

[**DS.** Os byddwch am ddiwygio'r manylion Pasio/Methu a bod angen i chi gael y manylion yn Saesneg ac yn Gymraeg, mae'n rhaid i chi olygu'r testun yn y ddau flwch isod, gan sicrhau bod y cyfieithiad yn rhoi'r un ystyr i gyflenwyr sy'n ateb yn Gymraeg neu yn Saesneg]

*** Manylion Pasio/Methu**

*** Manylion Pasio/Methu Saesneg**


Bwrw ymlaen | Canslo

Gellir dod o hyd i gwestiynau sydd i'w diweddaru o hyd yn y tab Yn yr arfaeth, a gellir dod o hyd i gwestiynau rydych chi wedi eu diweddaru eisoes yn y tab Diweddarwyd. Ar ôl i chi eu diweddaru i gyd, *dewiswch* **Bwrw ymlaen**.

**Diwygio Canllawiau Cwestiynau SQuID**

Y cam olaf wrth gwblhau'r Holiadur yw gwneud unrhyw newidiadau gofynnol i'r canllawiau ategol sy'n cael eu hallforio gyda'r cwestiynau SQuID.

Os hoffech olygu'r canllawiau ar gyfer unrhyw gwestiwn, dylech *ddewis* **Golygu** nesaf at y canllawiau perthnasol.




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ar ôl i chi ddewis golygu'r canllawiau, dangosir y canllawiau presennol y gellir eu diwygio yn ôl y gofyn.

Os dewisoch chi i greu'r Squid yn y Gymraeg a'r Saesneg, yna cewch yr opsiwn i olygu'r canllawiau yn y ddwy iaith.



Testun yr Arweiniad

**Testun yr Arweiniad**

Font Name | Real...

Os byddwch yn llwyddiannus, rhaid i chi gael yswiriant ar y lefelau canlynol er mwyn bod yn rhan o gontract / fframwaith. Atebolrwydd cyhoeddus £xxxxx, Atebolrwydd cyflogwr £xxxxx, Indemniad Proffesiynol £xxxxx. (DS. bydd angen i chi egluro a yw'r terfyn yswiriant mewn perthynas ag un hawliad neu gasgliad o hawliadau) Atebolrwydd cynnyrch £xxxxx DS Mae'n ofyniad cyfreithiol bod gan bob cwmni Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr (Gorfodol) o £5 miliwn o leiaf. Nodwch nad yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i Unig Fasnachwyr. Bydd methiant i brofi bod yr yswiriant hwn ar waith ar adeg y dyfarniad yn arwain at derfynu'r contract / fframwaith ar unwaith. Bydd methiant i gynnal yr yswiriant gofynnol drwy gydol oes y fframwaith / contract hefyd yn arwain at derfynu'r contract / fframwaith ar unwaith.

**Testun Canllawiau Saesneg**

Font Name | Real...


It is a condition of contract / framework participation that if successful you must have insurance at the following levels. Public liability £xxxxx, Employers liability £xxxxx, Professional Indemnity £xxxxx. (NB.you will need to explain whether the insurance limit is in relation to any one claim or is in aggregate) Product liability £xxxxx NB. It is a legal requirement that all companies hold Employer's (Compulsory) Liability Insurance of £5 million as a minimum. Please note this requirement is not applicable to Sole Traders. Failure to evidence that these insurances are in place at the point of award will result in the immediate termination of the contract / framework. Failure to maintain the required insurance through the life of the framework / contract will also result in immediate termination of the contract / framework.

Bwrw ymlaen | Canslo

Ar ôl i chi wneud y newidiadau gofynnol, *dewiswch* **Cadw**.

## Gorffen eich Holiadur ar gyfer ei Allforio

Y cam olaf wrth gwblhau eich Holiadur yw *dewis* **Gorffen** ar y dudalen ganllawiau. Gofynnir i chi gadarnhau eich bod wedi gorffen. Ni ellir diwygio'r SQuID eto ar ôl i chi gadarnhau hyn.



## Allforio'r Cwestiynau SQuID

Ar ôl cwblhau eich Holiadur SQuID, bydd yr opsiwn gennych i allforio'r holl gwestiynau i fformat Excel neu Word, yn ogystal â'r opsiwn i allforio'r canlyniadau yn y fformat ffurfwedd priodol ar gyfer eu mewnforio i'r system Bravo (etenderwales).
Byddwch yn mynd i'r dudalen allforio'n awtomatig ar ôl cwblhau holiadur. Gallwch hefyd ei chyrraedd o Banel Rheoli SQuID y Prynwyr a dewis yr ymarfer SQuID pethnasol.
Dylech ddewis yr eicon perthnasol er mwyn allforio i Excel neu Word.

Os byddwch yn dymuno allforio i ffurfwedd ar gyfer lanlwytho i etenderwales, dylech ddewis y ffurfwedd briodol o'r gwymplen ac yna *dewis* **Allforio**. Gweler yr adran nesaf am fanylion ar sut i lanlwytho eich set gwestiynau i etenderwales.




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Lanlwytho eich set gwestiynau i etenderwales


Sylwer y bydd rhai systemau'n lawrlwytho'r ffeil Excel o GwerthwchiGymru â gosodiad "*Protected View*", nad yw'n cael ei ganiatáu yn system etenderwales. Mae'n rhaid i chi wneud y canlynol cyn lanlwytho'r ffeil i etenderwales:

Agor y ffeil a allforiwyd.
Ar frig y daflen waith, *dewis* "*Enable Editing*".
Cadw'r ffeil.
Yna gallwch ei lanlwytho i etenderwales.



# Cloi a datgloi eich Squizard

Pan fyddwch yn creu ymarfer Squizard, bydd yn cael ei gloi'n awtomatig i'ch cofrestriad defnyddiwr. Mae hyn yn golygu na all unrhyw ddefnyddiwr arall ei ddiwygio. Os bydd angen defnyddiwr arall i gwblhau eich ymarfer, gallwch ei ddatgloi o'r rhestr 'SQuIDs y mae'r prynwr wedi'u cychwyn' trwy *ddewis* 'Datgloi'.



**Squizards y mae'r prynwr wedi cychwyn arnynt**

Rydych yma: Hafan > Panel Rheoli'r Prynwr > Panel Rheoli'r SQuID > Squizards y mae'r prynwr wedi cychwyn arnynt

Isod, ceir rhestr o'r holl Squizards y mae'ch awdurdod wedi cychwyn arnynt, ond heb eu gorffen eto. *Cliciwch* ar y Teitl perthnasol i fwrw ymlaen â chwblhau'r holiadur Squizard.

Pan fyddwch yn golygu Squizard, caiff ei gloi ac ni all neb ei olygu oni fyddwch yn clicio ar y ddolen "Datgloi" yn y tabl isod.

| | ID | Crëwyd | Crëwyd Gan | Teitl | Disgrifiad | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1274 | 07/04/2015 | Duncan Dallas | Systemau Diogelu Safleoedd Ail-gylchu *(Dan glo i chi ei olygu)* | Systemau Diogelu Safleoedd Ail-gylchu | Datgloi |
| | 1293 | 07/04/2015 | Duncan Dallas | Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu *(Dan glo i chi ei olygu)* | Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu | Datgloi |

Os na fydd y defnyddiwr sydd wedi cloi'r ymarfer squizard ar gael, gall staff cymorth GwerthwchiGymru ei ddatgloi yn dilyn cais drwy'r e-bost.

# Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am broses greu neu ddull ar-lein SQuID, cysylltwch â thîm cymorth GwerthwchiGymru ar 0844 561 0672 neu help@sell2wales.gov.uk